

## Eisteddfod yr Urdd – 2018

### Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Coroni Bl.10 a dan 25 oed (395)

---

BEIRNIADAETH CATRIN BEARD A LLEUCU ROBERTS

*Rhaid i ni nodi'n gyffredinol ein bod wedi ein calonogi'n fawr iawn gan safon yr iaith yn y gystadleuaeth hon. Iaith rywiog, gywir yw'r deunydd sylfaenol sy'n rhaid i bob awdur ei gael er mwyn gallu adeiladu ei stori, a brafyw gallu dweud fod pob un o'r ymgeiswyr eleni yn meddu ar adnoddau ieithyddol cadarn.*

*Cawr*

Hanes carwriaeth Rhys a Meilir a gawn yma, carwriaeth fer iawn gan fod Rhys yn marw cyn ei diwedd o ganlyniad i ymosodiad homoffobig erchyll. Mae elfennau dramatig iawn yma, rhwng y disgrifiad o'r ymosodiad, a galar Meilir. Efallai weithiau y gallai *Cawr* fod wedi ceisio arfer ychydig bach mwy o gynildeb – mae posib dweud mwy mewn llai yn aml, ac fe gollir grym y stori weithiau o fethu â newid y cywair o bryd i'w gilydd. Ar ôl dweud hynny, mae safon iaith a dawn dweud *Cawr* yn ddigamsyniol, a dylai ddal ati i ysgrifennu: fe ddaw teimlad drwy hynny ynglŷn â phryd i ymatal, a fydd yn rhoi mwy o ddyfnder i'w waith.